
Pwysig: Diffoddwch Offer Sensitif

Gadewch i **foeleri** oeri bob amser **CYN** iddynt gael eu diffodd er mwyn **osgoi** problemau



Defnyddiwch y rheolyddion defnyddwyr ar yr offer i ddiffodd. Boeleri - trowch y thermostat i'r lleiafswm cyn diffodd yn yr uned.



Yna trowch i ffwrdd wrth y soced a thynnwch y plwg o'r wal os yn bosibl.



Cofiwch ailosod clociau / amseryddion digidol unwaith y bydd pŵer wedi'i adfer.

Offer Preswyl

- Boeleri a systemau gwresogi
- Setiau teledu, blychau lloeren / digidol, cyfrifiaduron, gliniaduron
- Consolau hapchwarae, ffonau / larymau / TCC
- Microdonau / poptai / nwyddau gwyn
- Offer ar gyfer cynnal a chadw anifeiliaid e.e. pympiau, gwresogi
- Cofiwch am unrhyw garej neu adeiladau allanol!

Gall Offer Busnes gynnwys

- Boeleri a systemau gwresogi
- Systemau rheweiddio / Larymau / systemau TCC
- Ffonau / Argraffwyr / sganwyr / peiriannau ffacs
- Cyfrifiaduron, gliniaduron, setiau teledu, derbynyddion lloeren / digidol
- Peiriannau coffi / gwerthu, microdonau a phoptai
- Offer ar gyfer cynnal a chadw anifeiliaid e.e. pympiau, gwresogi

Rhowch wybod i'ch gosodwr am unrhyw offer cynnal bywyd ac offer meddygol ar y safle NEU os oes unrhyw un o'ch cymdogion yn rhannu eich cyflenwad.

Rhowch hwn yn ôl i'r gosodwr.

Pwysig: Offer Nwy

Yn EDF diogelwch yw ein blaenoriaeth gyntaf. Er mwyn helpu i'ch cadw'n ddiogel byddwn yn cwblhau asesiad risg gweledol o'ch offer nwy presennol yn ystod eich gosodiad Mesurydd deallus.

- Os byddwn yn nodi neu'n amau sefyllfa anniogel, byddwn yn cymryd y camau priodol o dan Weithdrefn Sefyllfaoedd Anniogel y Diwydiant Nwy a allai gynnwys gwneud eich peiriant yn ddiogel. Mae hyn er eich lles eich hun ac yn rhwymedigaeth gyfreithiol ar gyflenwyr ynni.
- Rhowch wybod i'ch gosodwr mesurydd deallus pan gafodd eich offer eu gwasanaethu ddiwethaf ac a allwch chi arogli nwy unrhyw le yn eich eiddo.
- Gallai'r lluniau isod fod o gymorth i adnabod unrhyw offer sydd gennych. Mae'n bwysig cynnwys eich HOLL offer nwy p'un a ydych yn eu defnyddio ai peidio a hyd yn oed os nad ydynt wedi'u dangos isod.



Popty Nwy



Tân Nwy



Boeler ffliw agored



Gwresogydd Aer Cynnes



Boeler wedi'i Selio yn yr Ystafell

Rhowch hwn yn ôl i'ch gosodwr

R545.IH.01.20.V8